CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2005 Rhif 2837 (Cy.201)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2005

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) 1997 ("Rheoliadau 1997") at ddibenion "cwestiwn perthnasol". Mae hwn yn gwestiwn o dan Reoliadau 1997 o ran a oes gan rieni disgybl a gynorthwyir hawl i grant gwisg ysgol o dan Ran II, neu grant teithio o dan Ran III, o Reoliadau 1997 sy'n codi ynglŷn â blwyddyn ysgol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2005 ac nas penderfynwyd ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

Mae Rheoliadau 1997 yn darparu ar gyfer talu grantiau o ran mân dreuliau, ac ar gyfer peidio â chasglu mân dreuliau, mewn perthynas â disgyblion sy'n gymwys i barhau i ddal lleoedd a gynorthwyir mewn ysgolion annibynnol yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997, er bod y cynllun lleoedd a gynorthwyir wedi'i ddiddymu gan adran 1 o'r Ddeddf honno.

Mae'r Rheoliadau hyn yn llacio'r prawf moddion ariannol ar gyfer grantiau gwisg ysgol a grantiau teithio (a nodir yn rheoliad 2 a 4 o Reoliadau 1997 yn eu trefn) ac yn cynyddu swm y grant sy'n daladwy.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 No. 2837 (W.201)

EDUCATION, WALES

The Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) (Amendment) (Wales) Regulations 2005

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) Regulations 1997 ("the 1997 Regulations") for the purposes of a "relevant question". This is a question under the 1997 Regulations as to whether the parents of an assisted pupil are entitled to a uniform grant under Part II, or a travel grant under Part III, of the 1997 Regulations which arises in respect of a school year beginning on or after 1st September 2005 and has not been determined at the date on which these Regulations come into force.

The 1997 Regulations provide for the payment of grants as regards incidental expenses, and for the remission of incidental expenses, in respect of pupils eligible to continue to hold assisted places at independent schools by virtue of section 2 of the Education (Schools) Act 1997, notwithstanding the abolition of the assisted places scheme by section 1 of that Act.

These Regulations relax the uniform and travel grants means tests (set out in regulation 2 and 4 of the 1997 Regulations respectively) and increase the amount of grant payable.

OFFERYNNAU STATUDOL

2005 Rhif 2837 (Cy.201)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud	*11 Hydref 2005*
Yn dod i rym	*14 Hydref 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 3(3), (4), (5) a (9) o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 14 Hydref 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ynghylch cwestiwn perthnasol.

(3) Ym mharagraff (2) uchod, ystyr "cwestiwn perthnasol" yw'r ystyr a roddir i "relevant question" o dan Reoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) 1997 o ran a oes gan rieni disgybl a gynorthwyir hawl i grant gwisg ysgol o dan Ran II, neu grant teithio o dan Ran III, o'r Rheoliadau hynny-

(a) sy'n codi ynglŷn â blwyddyn ysgol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2005; a

(b) nas penderfynwyd ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

(**1**) 1997 p.59. Diwygiwyd adran 3 gan adran 130 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31).

(**2**) Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3 yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru: *gweler* Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 a'r cofnod o ran Deddf Addysg (Ysgolion) 1997 yn Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672).

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 No. 2837 (W.201)

EDUCATION, WALES

The Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) (Amendment) (Wales) Regulations 2005

Made	*11 October 2005*
Coming into force	*14 October 2005*

The National Assembly for Wales makes the following Regulations under the powers conferred on the Secretary of State by section 3(3), (4), (5) and (9) of the Education (Schools) Act 1997(**1**) and now exercisable by the National Assembly for Wales(**2**):

Title, commencement and application

1.-(1) The title of these Regulations is the Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) (Amendment) (Wales) Regulations 2005 and they come into force on 14 October 2005.

(2) These Regulations apply in relation to Wales in respect of a relevant question.

(3) In paragraph (2) above, a "relevant question" means a question under the Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) Regulations 1997 as to whether the parents of an assisted pupil are entitled to a uniform grant under Part II, or a travel grant under Part III, of those Regulations which-

(a) arises in respect of a school year beginning on or after 1 September 2005; and

(b) has not been determined at the date on which these Regulations come into force.

(**1**) 1997 c.59. Section 3 was amended by section 130 of the School Standards and Framework Act 1998 (c.31).

(**2**) The functions of the Secretary of State under section 3 are exercisable by the National Assembly for Wales in relation to Wales: *see* Article 2 of, and the entry in respect of the Education (Schools) Act 1997 in Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

Diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) 1997

2.-(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) 1997(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(2), yn lle "£12,846" rhodder "£13,116".

(3) Yn lle rheoliad 2(3)(a) a (b) rhodder-

"(a) £81 where the relevant income does not exceed £12,182; and

(b) £42 where that income exceeds £12,182 but does not exceed £13,116.".

(4) Yn rheoliad 4-

(a) ym mharagraff (3), yn lle "£11,948" rhodder "£12,195"; a

(b) ym mharagraff (4)-

(i) yn lle "£11,948" rhodder "£12,195", a

(ii) yn lle "£11,769" rhodder "£12,016".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

11 Hydref 2005

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Amendment of the Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) Regulations 1997

2.-(1) The Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) Regulations 1997(**1**) are amended as follows.

(2) In regulation 2(2), for "£12,846" there is substituted "£13,116".

(3) For regulation 2(3)(a) and (b) there is substituted-

"(a) £81 where the relevant income does not exceed £12,182; and

(b) £42 where that income exceeds £12,182 but does not exceed £13,116.".

(4) In regulation 4-

(a) in paragraph (3), for "£11,948" there is substituted "£12,195"; and

(b) in paragraph (4)-

(i) for "£11,948" there is substituted "£12,195", and

(ii) for "£11,769" there is substituted "£12,016".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**2**).

11 October 2005

D. Elis-Thomas

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) O.S. 1997/1969, a ddiwygiwyd gan O.S. 1998/1585, O.S. 1999/1505, O.S. 2000/1939 (Cy.137), O.S. 2001/2708 (Cy.227), O.S. 2002/1880 (Cy.189), O.S. 2003/1779 (Cy.193) ac O.S. 2004/1807 (Cy.195).

(**2**) 1998 p.38.

(**1**) S.I. 1997/1969, amended by S.I. 1998/1585, S.I. 1999/1505, S.I. 2000/1939 (W.137), S.I. 2001/2708 (W.227), S.I. 2002/1880 (W.189), S.I. 2003/1779 (W.193) and S.I. 2004/1807 (W.195).

(**2**) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

2005 Rhif 2837 (Cy.201)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2005

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 No. 2837 (W.201)

EDUCATION, WALES

The Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) (Amendment) (Wales) Regulations 2005

©℗ Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W137/10/05 ON